# Taflen Anffyddiaeth AA2

## Rhan 1

**Mae Anffyddiaeth Newydd yn dangos yn llwyddiannus bod gwyddoniaeth a chrefydd yn anghydnaws. Gwerthuswch y safbwynt hwn.**

1. I bob golwg, mae'r Anffyddwyr Newydd yn dadlau bod damcaniaethau gwyddonol yn seiliedig ar dystiolaeth yn unig, tra bod crefydd yn ffoi oddi wrth dystiolaeth. Yr honiad yw bod anffyddiaeth yn rhesymegol ac yn wyddonol tra bod crefydd yn afresymol ac yn ofergoelus. Nid yw ffydd yn elfen o wyddoniaeth gan fod tystiolaeth dros argyhoeddiad cywir yn ein gorfodi i dderbyn ei wirionedd. Fel y dywed Dawkins "Mae ffydd yn gyflwr meddwl sy'n arwain pobl i gredu rhywbeth – ni waeth beth – yn absenoldeb llwyr unrhyw dystiolaeth ategol. Pe byddai tystiolaeth ategol dda, yna ni fyddai angen ffydd..."
Fodd bynnag, mae Alister McGrath yn nodi bod y fath safbwynt yn "methu â gwneud y gwahaniaethiad critigol rhwng 'absenoldeb llwyr unrhyw dystiolaeth ategol' ac 'absenoldeb tystiolaeth sy'n llwyr ategol'." Mae'n wir fod rhai ffeithiau ynglŷn â'r byd wedi cael eu profi (e.e. y fformiwla gemegol am ddŵr) ond mae'r cwestiynau gwyddonol mawr, fel a oes Damcaniaeth Unedig Fawr sy'n egluro popeth, yn dibynnu ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, ond nid ydynt yn wirioneddau sicr. Yn y blynyddoedd i ddod efallai byddant yn newid wrth i dystiolaeth newydd gael ei hystyried. Daeth Gauch i'r casgliad "bod gwyddoniaeth yn dibynnu ar ffydd".
Yn ei lyfr, "The God Delusion" mae Dawkins yn dadlau bod bodolaeth Duw yn rhagdybiaeth y gellir ei rhoi ar brawf ac mae'n dod i'r casgliad bod y rhagdybiaeth yn un y gellir ei hanwirio. Felly mae'r rhagdybiaeth yn agored i'r dull gwyddonol. Felly dyma hyrwyddwr Anffyddiaeth Newydd yn dadlau bod bodolaeth Duw yn rhagdybiaeth ystyrlon. Mae hyn yn awgrymu bod crefydd a gwyddoniaeth yn gydweddol. Adlewyrchir y cydweddoldeb hwn yn y ffaith fod gwyddonwyr sydd hefyd yn Gristnogion wedi dadlau yn erbyn Dawkins. O bosib, un o'r dadleuon mwyaf enwog oedd yr un rhwng Dawkins a John Lennox sy'n Athro Emeritws mewn Mathemateg yn Rhydychen.

2. Mae gwyddoniaeth yn ateb y cwestiwn "sut" tra bod crefydd yn ateb y cwestiwn "pam". Maen nhw'n delio â dau faes tra gwahanol. Mae crefydd yn ymwneud â ffydd tra bod gwyddoniaeth yn ymwneud â ffeithiau. Ond cyfaddefir "nad oes gan wyddoniaeth unrhyw ddulliau ar gyfer penderfynu beth sy'n foesegol." Felly mae hynny'n cefnogi'r safbwynt bod gwyddoniaeth a chrefydd yn anghydnaws. Fodd bynnag, mae rhai Anffyddwyr Newydd yn dadlau bod gwerthoedd moesol yn ymwneud â hybu lles dynol a gan fod gwyddoniaeth yn dweud beth sy'n hybu lles, "gall bennu gwerthoedd moesol".
Dylid nodi hefyd "nad yw Duw yn preswylio yn y bydysawd, ef yw'r rheswm pam mae yna fydysawd o gwbl." Felly, mae gwahaniaeth rhwng gwyddoniaeth a chrefydd. Mae gwyddoniaeth yn gweithio ar ddata arsylladwy yn unig ac mae'n dod i gasgliad neu ragdybiaeth ar sail y data hynny. Mae rhai pobl yn dweud "na all gronynnau isatomig gael eu harsylwi go iawn, ond ni ellir ystyried nad ydynt yn bodoli am y rheswm hwn".

Mae'r damcaniaethau gwyddonol gorau yn cynnig esboniadau o agweddau arsylladwy ac anarsylladwy o'r byd. Felly, mae gwyddoniaeth yn gydwedd â chrefydd.

## Rhan 2

**TASG**: Datblygwch y ddadl sylfaenol isod drwy ddefnyddio unrhyw ddyfyniadau/gyfeiriadau perthnasol at yr ysgolheigion a restrir. Ni ddylid rhagdybio bod pob un yn berthnasol neu'n ofynnol. Yna cymharwch gyda phobl eraill yn y dosbarth a thrafodwch unrhyw wahaniaethau gan asesu'r cyfiawnhad a roddir dros y gwahaniaethau hynny. Cofiwch hefyd ystyried y gwahanol ddulliau o werthuso a astudiwyd yn y dasg AA2 yn seiliedig ar y pwnc Gwyrthiau.

**"Mae Anffyddiaeth Newydd yn llwyddo i ddangos bod ffydd grefyddol yn fabanaidd."**

Mae Anffyddiaeth Newydd yn dangos yn glir bod cred grefyddol/ffydd yn rhithdyb blentynnaidd a ddylai fod wedi diflannu amser maith yn ôl wrth i'r ddynoliaeth ddatblygu ei haeddfedrwydd. Mae ein meddwl nawr yn seiliedig ar dystiolaeth sydd wedi ein galluogi i roi'r gorau i gredau plentynnaidd. Felly pam mae pobl yn dal i gydio mewn cred grefyddol. Yn amlwg mae'n ymwneud â chael ein cyflyru neu gael y syniad wedi ei roi yn ein pennau gan ein rhieni pan yn blant.
Wrth gwrs mae rhywfaint o wirionedd yn hyn. Mae credau ein rhieni yn effeithio arnom. Ond yn ddiau, mae llawer o oedolion yn troi at grefydd pan eu bod yn dod o gefndir digrefydd. Felly ydy'r dewis hwnnw yn dal i ddeillio o blentyndod?
Mae'r Anffyddwyr Newydd yn cwyno bod credau crefyddol yn amlwg yn gredau anghywir a ddelir yn wyneb tystiolaeth groes gref. Mae'r crediniwr crefyddol wedi ei dwyllo ac mae'n ymddangos bod unrhyw ffurf ar ddadlau rhesymegol yn effeithio dim arno. Mae ffydd yn sylfaenol afresymol. Ond yn ddiau, mae i wyddoniaeth elfen o ffydd. Mae gwyddoniaeth yn rhoi damcaniaethau i ni sy'n gwneud synnwyr o'r data sydd gennym. Ond dim ond damcaniaethau ydyn nhw – casgliadau sy'n ffitio orau. Mae'n fater o ffydd p'un ai mai'r damcaniaethau hynny yw'r stori lawn neu a ydynt yn gywir hyd yn oed. Mae credinwyr crefyddol yn ymddwyn mewn ffordd debyg. Maent yn cymesuro'u cred i'r dystiolaeth. Maent yn dod i'r casgliad na ellir egluro'r bydysawd yn ddigonol o ran y naturiol, ond o ran y goruwchnaturiol. Mae'r crediniwr crefyddol yn dadlau bod eu damcaniaeth yn gwneud synnwyr o'r holl ddata yn yr un ffordd – gan ddod i'r casgliad bod yna Dduw. Felly, ni ellir dweud bod ffydd grefyddol yn fabanaidd.

**Dyfyniadau /Cyfeiriadau:**

1. "Mae gwyddoniaeth yn dibynnu ar ffydd" – Gauch
2. "Ni all gronynnau isatomig gael eu harsylwi go iawn, ond ni ellir ystyried nad ydynt yn bodoli am y rheswm hwn" – Alister McGrath
3. "Mae'r enaid yn hollol ar ddihun mewn perthynas â Duw, ond yn hollol ynghwsg mewn perthynas â phethau'r byd hwn." (Santes Teresa o Avila)
4. Yn ei lyfr, "The God Delusion" mae Dawkins yn dadlau bod bodolaeth Duw yn rhagdybiaeth y gellir ei rhoi ar brawf ac mae'n dod i'r casgliad bod y rhagdybiaeth yn un y gellir ei hanwirio. Felly mae'r rhagdybiaeth yn agored i'r dull gwyddonol.
5. "Yn safbwynt yr Anffyddiwr Newydd ar y byd...mae crefydd yn ymwneud â rhedeg i

ffwrdd oddi wrth y ffeithiau a chwilio am gysur mewn mythau Oes yr Efydd anfoesol, anhygred a hen ffasiwn." – Alister McGrath

6. "Mae'n wrthnysig chwilio am synnwyr o burdeb moesegol pan enillir hwn ar draul dioddefaint eraill." (Tony Hope)
7. Dadleuodd Dawkins bod y gred yn Nuw yn union fel credu yn y Tylwyth Teg Dannedd neu Siôn Corn. Ond mae'r cydweddiad yn ymddangos yn ddiffygiol gan nad oes llawer o bobl yn dod i gredu yn Siôn Corn pan yn oedolion, er bod hyn yn digwydd o ran credu yn Nuw.
8. "Ar bob cyfrif gellid ei gredu oherwydd ei fod yn absẃrd." (priodolir i Tertullion)
9. Mae Dawkins yn dadlau bod y broses fiolegol o ddethol naturiol yn llunio ymennydd plentyn fel ei fod yn tueddu i gredu pa beth bynnag mae ei rieni yn ei ddweud.
10. "Mae capasiti gwyddoniaeth i'w hegluro'i hunan yn gofyn am esboniad." (Richard Swinburne)